OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1628

# Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 2

### Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Rhan 3**

**6.**—(1) Mae Rhan 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl "drwy'r awyr" mewnosoder "neu i borthladd RoRo yng Nghymru";

(b) ym mharagraff (4)—

(i) yn y diffiniad o "gweithredwr cyfrifol", yn lle "yr Undeb" rhodder "Prydain Fawr";

(ii) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "porthladd RoRo" ("*RoRo port*") yw lleoliad RoRo a restrir o fewn ystyr "RoRo listed location" yn rheoliad 130 o Reoliadau Tollau (Tollau Mewnforio) (Ymadael â'r UE) 2018(**1**);".

(3) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "o reolau iechyd planhigion yr UE" rhodder "o'r rheolau iechyd planhigion";

(b) ym mharagraff (2)(b), yn lle "diriogaeth yr Undeb" rhodder "Brydain Fawr".

(4) Yn rheoliad 10(1)—

(a) yn is-baragraffau (a) a (b), yn lle "o reolau iechyd planhigion yr UE", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "o'r rheolau iechyd planhigion";

(b) yn is-baragraff (c), yn lle "diriogaeth yr Undeb" rhodder "Brydain Fawr".

(5) Yn rheoliad 11(1)(c), yn lle "diriogaeth yr Undeb" rhodder "Brydain Fawr".

(**1**) O.S. 2018/1248, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.